



Gwerthusiad Canol Tymor o Gronfa Busnes Cymru: Crynodeb Gweithredol

Adroddiad Terfynol gan Hatch, Belmana
a Beaufort Research
Ebrill 2021

Banc Datblygu Cymru

Gwerthusiad Canol Tymor o Gronfa Busnes Cymru: Crynodeb Gweithredol

Ebrill 2021

www.hatch.co.uk

Crynodeb Gweithredol

- i. Mae'r adroddiad yn nodi canfyddiadau'r gwerthusiad canol tymor o Gronfa Busnes Cymru Banc Datblygu Cymru (BDC), cronfa fuddsoddi a reolir ac a ddarperir gan y Banc Datblygu. Lansiwyd Cronfa Busnes Cymru yn 2016 ac mae disgwyl iddi barhau i fuddsoddi tan ddiwedd 2023. Cynhaliwyd y gwerthusiad gan Hatch, gyda chefnogaeth Beaufort Research a Belmana.
- ii. Mae Cronfa Busnes Cymru yn parhau ag ymrwymiad hirdymor gan Lywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth yr Undeb Ewropeaidd, i ddefnyddio offerynnau ariannol ad-daladwy i fynd i'r afael â diffyg yn y farchnad o ran darparu cyllid busnes allanol i fusnesau bach a chanolig (BBaChau) yng Nghymru. Mae'n adeiladu ar lwyddiant Cronfa JEREMIE Cymru a oedd ar waith yn ystod y cyfnod 2009-15, gan ddarparu cyllid i fusnesau cyfnod cynnar a busnesau sy'n seiliedig ar dwf ledled Cymru a sicrhau manteision economaidd sylweddol.
- iii. Mae Cronfa Busnes Cymru wedi'i rhannu'n bedwar gweithrediad wedi'u diffinio gan ddaearyddiaethau dwy raglen Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) 2014-20 yng Nghymru (rhaglen Dwyrain Cymru a rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) a ffocws buddsoddi thematig y rhaglenni hyn, sef:
 - cyllid ar gyfer dechrau busnesau ac ehangu busnesau (Amcan Penodol 2.1 Echel Blaenoriaeth 2: Cystadleurwydd BBaChau)
 - cyllid ar gyfer BBaChau sy'n canolbwyntio ar Arloesi ac Ymchwil a Datblygu sy'n fusnesau cyfnod cynnar ac sy'n canolbwyntio ar dwf (Amcan Penodol 2.5 Echel Blaenoriaeth 2: Cystadleurwydd BBaChau).
- iv. Mae Cronfa Busnes Cymru wedi mynd drwy gyfres o addasiadau o ran maint, ffynonellau cyllid, proffil cyllid, strwythur, a thargedau allbwn ers ei lansio yn 2016. Argaeledd cynyddol cyllid ERDF yn y rhaglenni sydd wedi llywio hyn yn bennaf, yn ogystal â newidiadau mwy diweddar mewn ymateb i effeithiau Covid-19 sy'n dod i'r amlwg. Mae'r Banc Datblygu wedi gweithio'n agos â Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) i wneud newidiadau i Gronfa Busnes Cymru, gan barhau i fynd i'r afael â diffyg yn y farchnad ac anghenion busnes.
- v. Mae adroddiad y Gwerthusiad Canol Tymor yn canolbwyntio'n bennaf ar berfformiad Cronfa Busnes Cymru hyd at ddiwedd mis Mawrth 2020 ac felly'n edrych ar berfformiad yn erbyn Cronfa o £180.9m. Fodd bynnag, yn dilyn Rhagasesiad a gynhaliwyd yn nhymor yr Hydref 2020, adolygwyd maint Cronfa Busnes Cymru ymhellach ym mis Rhagfyr 2020 i £204m (yn cynnwys £140.5m wedi'i ddyrannu i Orllewin Cymru a'r Cymoedd a £63.5m wedi'i ddyrannu i Ddwyrain Cymru, gyda 65% yn gyllid dyled a 35% yn ecwiti). Felly, mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys dadansoddiad wedi'i ddiweddarau gan ddefnyddio data a ddarparwyd yn fwy diweddar, sy'n adolygu perfformiad pennawd yn erbyn targedau cynllun busnes diwygiedig hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2020. Ceir crynodeb o brif ganfyddiadau'r gwerthusiad isod.

Perthnasedd a Chysondeb

- vi. **Mae Cronfa Busnes Cymru wedi'i chynllunio'n dda i fynd i'r afael â diffyg yn y farchnad:** mae tystiolaeth o fwlch ecwiti strwythurol hirdymor ym marchnad cyllid BBaChau Cymru a llai o gyllid dyled. Mae'r angen am ymyrraeth gan y sector cyhoeddus a'r offerynnau ariannol a ddarperir yn seiliedig ar resymeg glir yn ymwneud â diffyg yn y farchnad.

- vii. **Er bod targedau gwreiddiol yn realistig cyn y pandemig ar y cyfan, mae'r sefyllfa wedi newid:** cynlluniwyd y dangosyddion allbwn cytundebol yn seiliedig ar asesiadau o'r farchnad, profiad ymarferol o ddarparu cronfeydd blaenorol, wedi'u haddasu i adlewyrchu amodau cyfredol y farchnad. Cyn y pandemig, roedd y gwerthuswyr o'r farn bod mwyafrif y targedau allbwn yn briodol ac yn realistig. Fodd bynnag, mae perfformiad yn erbyn targedau swyddi y cynllun busnes gwreiddiol (swyddi a grëwyd ac a ddiogelwyd) ar ei hôl hi. Gall hyn fod o ganlyniad i nifer o ffactorau yn cynnwys y ffaith bod y rhagdybiaethau gwreiddiol sy'n sail i'r targedau wedi'u seilio ar brofiadau â chronfa yn gweithredu mewn amgylchedd gwahanol, yn ogystal ag oedi o ran creu swyddi gyda buddsoddiad cyfnod cynnar. Yn fwy diweddar, adolygwyd y targedau yn unol â pherfformiad hyd yma a'r newidiadau disgwylidig i allbynnau yn y dyfodol o ganlyniad i'r pandemig Covid-19.
- viii. **Mae Cronfa Busnes Cymru yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gyson, er gwaethaf y cyd-destun newidiol:** mae BDC wedi gweithio'n agos gyda WEFO i wneud newidiadau i Gronfa Busnes Cymru i sicrhau ei bod yn parhau i fyndi'r afael â diffyg yn y farchnad a diwallu anghenion busnes, sydd wedi bod yn broses ailadroddol. Mae hyn wedi cynnwys comisiynu asesiadau o'r farchnad a rhagasesiadau i nodi ble mae'r bylchau yn y farchnad ac ailasesu'r rhesymeg dros ddyluniad Cronfa Busnes Cymru yng ngoleuni newidiadau yn y farchnad a chyd-destun economaidd a pholisi. Mae'r dull rhagweithiol hwn wedi sicrhau bod Cronfa Busnes Cymru yn parhau i fod yn berthnasol, yng ngoleuni'r newidiadau hyn.

Perfformiad Cronfa Busnes Cymru

- ix. **Perfformiad buddsoddi cryf parhaus:** Mae Cronfa Busnes Cymru wedi parhau i wneud cynnydd cryf yn erbyn proffil cyflawni'r Cynllun Busnes gwreiddiol a diwygiedig, gan fuddsoddi cyfanswm o £141.4m (101% o'r proffil diwygiedig ar gyfer Ch4 2020) mewn 317 o gwmnïau hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2020 (dim ond 5% yn llai na'r proffil diwygiedig ar gyfer Ch4 2020). O gymharu â thargedau diwygiedig oes gyfan y prosiect, mae Cronfa Busnes Cymru wedi buddsoddi 56% o werth cyffredinol y gronfa o £204m hyd at Ch4 2020 ac wedi cefnogi 63% o'r targed diwygiedig oes gyfan o ran nifer y BBaChau a gefnogir (505 o BBaChau).
- x. **Perfformio'n dda yn erbyn targedau diwygiedig:** Addaswyd y dangosyddion allbwn targed ar gyfer Cronfa Busnes Cymru ym mis Rhagfyr 2020 yn unol â pherfformiad hyd yma a'r newidiadau disgwylidig i allbynnau yn y dyfodol o ganlyniad i oblygiadau'r pandemig Covid-19 i Gronfa Busnes Cymru. Roedd hyn yn cynnwys lleihau targedau trosoledd cyflogaeth a sector preifat, a mabwysiadu targed gwirfoddol swyddi a ddiogelwyd fel dangosydd craidd. Mae Cronfa Busnes Cymru yn perfformio'n dda yn erbyn targedau datblygiad economaidd allweddol, gan gyflawni, neu ragori ar yr holl dargedau diwygiedig hyd yma ar wahân i'r targed swyddi a ddiogelwyd (lle mae perfformiad yn parhau i fod ar y trywydd iawn gyda 97% o'r targed wedi'i gyflawni hyd yma).
- xi. **Sbarduno buddsoddiadau ecwiti yng Nghymru:** er gwaethaf buddsoddiadau ecwiti is na'r disgwyl yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, mae BDC wedi bod yn llwyddiannus yn gyffredinol o ran sbarduno buddsoddiadau ecwiti yng Nghymru: Mae Adroddiadau Ecwiti Preifat a Chyfalaf Menter Cymdeithas Ecwiti Preifat a Chyfalaf Menter Prydain (BVCA) ar weithgaredd buddsoddi yn dangos bod lefel yr ecwiti ehangu a buddsoddiadau ecwiti cam cynnar wedi cynyddu yng Nghymru, yn enwedig dros y tair blynedd diwethaf. Mae cyllid a gefnogir gan y llywodraeth, megis Cronfa Busnes Cymru, yn sbardun pwysig i hyn. Yn ôl Banc Busnes Prydain, roedd 60% o'r holl fargeinion ecwiti a gyhoeddwyd yng Nghymru yn 2019 yn cynnwys un o gronfeydd y Llywodraeth, ac ategir hyn gan dystiolaeth a gafwyd drwy ymgynghori sy'n awgrymu bod BDC, gyda'i broffil marchnad uwch a'i ddull gweithredu lleol, wedi cael llawer mwy o lwyddiant wrth

dreiddio i'r farchnad a buddsoddi mewn BBaChau o gymharu â chynlluniau ecwiti eraill ledled y DU. Mae hyn yn awgrymu bod cronfeydd BDC megis Cronfa Busnes Cymru wedi llwyddo i ariannu bwlch yn y farchnad lle nad yw darpariaeth y sector preifat yn hanesyddol wedi diwallu gofynion BBaChau, a hefyd annog cyd-fuddsoddiad llawer uwch o'r sector preifat.

- xii. **Mae gwerth cyfartalog buddsoddiadau ecwiti wedi bod yn uwch na'r disgwyl:** er y gallai hyn fod yn fuddiol o ran diwallu anghenion cyllid y busnesau hyn a darparu costau buddsoddi ychydig yn is ar gyfer BDC (fesul bargaen), gellir dadlau nad yw'r buddsoddiad wedi'i daenu mor eang o gymharu â'r cynlluniau gwreiddiol o ran sbarduno manteision datblygu economaidd ymhlith busnesau Cymru.
- xiii. **Rhagorwyd yn sylweddol ar dargedau ysgogi buddsoddiadau gwreiddiol y sector preifat:** rhagorwyd ar hyn o oddeutu £110m, gan sicrhau £250.7m ym mis Mawrth 2020, gan adlewyrchu enw da cynyddol BDC a'r hyder cynyddol yn y farchnad sydd wedi cyfrannu at ymwybyddiaeth gynyddol ymhlith cyfryngwyr a buddsoddwyr eraill a pharodrwydd cynyddol i gydfuddsoddi. O ystyried y perfformiad cryf yn erbyn targedau ysgogi y sector preifat, adolygwyd y targed gydol oes ym mis Rhagfyr 2020 o £178.3m i £370.3m. Mae adroddiad chwarterol diweddaraf y Gronfa yn nodi bod Cronfa Busnes Cymru ar y trywydd iawn yn erbyn y targed diwygiedig, ac wedi ysgogi buddsoddiadau gwerth £270.7m o'r sector preifat ar ddiwedd mis Rhagfyr 2020 (99% o'r targed chwarterol cronnus diwygiedig).
- xiv. **Mae cyfraddau diffygdlu a dileu dyledion yn gyson is na phroffil y cynllun busnes:** fodd bynnag, dylid nodi, o Ch4 2019 i Ch1 2020, bod lefelau diffygdlu wedi cynyddu £3.4m. Mae hyn i'w briodoli'n bennaf i adolygiad sector cyfan a gynhaliwyd yn dilyn dyfodiad y pandemig COVID-19, pan roddwyd darpariaeth gyffredinol o 50% i gwmnïau portffolio yr ystyriwyd eu bod yn agored iawn i ddioddef effaith negyddol yn sgil COVID-19. Bu costau gweithredu'n unol â'r rhagamcanion.
- xv. **Mae'r gyfradd creu swyddi wedi arafu ers y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud Covid-19:** Er bod Cronfa Busnes Cymru bellach ar y trywydd iawn i gyrraedd targedau swyddi'r cynllun busnes diwygiedig, ar ôl cyrraedd targed newydd Ch4 2020 ar gyfer creu swyddi a 97% o darged newydd Ch4 2020 ar gyfer swyddi a ddiogelwyd, mae'n werth nodi bod cyfradd creu a diogelu swyddi ymhlith busnesau sy'n derbyn cyllid wedi arafu ers y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud yn sgil Covid-19. Gall hyn fod yn dystiolaeth gynnar o effaith negyddol Covid-19 ar gyflawni swyddi ymhlith busnesau a gefnogir a gallai gael effaith ar y manteision datblygu economaidd cyffredinol a gyflawnir gan Gronfa Busnes Cymru. Bydd angen monitro hyn yn fanwl yn ystod y 12-24 mis nesaf.
- xvi. **Mae'r portffolio'n parhau i berfformio'n gymharol iach hyd yma, er gwaethaf effeithiau COVID-19 sy'n dod i'r amlwg:** Mae mesur iechyd Cronfa Busnes Cymru (a gyfrifir fel y cyfalaf a ad-dalwyd hyd yma, ynghyd â buddsoddiadau wedi'u graddio'n A, B ac C, wedi'u rhannu â'r gwerth gros ar bapur) wedi gostwng o 77% yn Ch4 2019 i 65% yn Ch4 2020. Fodd bynnag, y tu hwnt i'r gostyngiad cychwynnol yn y mesur iechyd yn dilyn y darpariaethau a roddwyd ar waith ym mis Mawrth 2020, ni fu unrhyw gynnydd mawr yn y cyfraddau diffygdlu nac unrhyw ddirywiad sylweddol yn y portffolio hyd yma. Nododd ymgylgoreion BDC mai'r rheswm pennaf am hyn oedd y mesurau COVID-19 a roddwyd ar waith gan lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Cynigiodd BDC hefyd wyliau ad-dalu cyfalaf o dri mis (a manteisiodd cyfran fawr o'r portffolio ar y cynnig) a chynigiwyd estyniad pellach i fusnesau oedd ei angen. Mae'n werth nodi y bydd hyn yn gohirio adennill cyfalaf i rai busnesau a gallai unrhyw gynnydd dilynol mewn cyfraddau diffygdlu arwain at lai o enillion etifeddiaeth a datblygu economaidd.

Cyfraniadau at Themâu Trawsbynciol

- xvii. **Ymwybyddiaeth ac ymrwymiad gwirioneddol i ymgorffori themâu trawsbynciol:** mae BDC wedi dangos ymrwymiad cryf i sicrhau bod y themâu trawsbynciol wrth wraidd dyluniad y prosiect. Mae'r trafodaethau rhwng BDC a WEFO ynghylch y themâu trawsbynciol wedi bod yn gadarnhaol ac yn rhagweithiol ac mae BDC yn adrodd yn rheolaidd ar gynnydd tuag at yr wyth dangosydd lefel achos mewn adroddiadau monitro chwarterol ac adroddiadau themâu trawsbynciol blynyddol.
- xviii. **Mae'r mecanwaith atgyfeirio a'r berthynas â Busnes Cymru wedi cefnogi cyflwyno'r themâu trawsbynciol:** Rhwng mis Medi 2016 a diwedd mis Mawrth 2019 (sef yr adroddiad blynyddol diweddaraf ar themâu trawsbynciol), cyfeiriodd Cronfa Busnes Cymru 280 o fusnesau at Busnes Cymru, y mwyafrif ohonynt ar y cam ymholi. Drwy atgyfeirio busnesau pan fyddant yn holi am Gronfa Busnes Cymru am y tro cyntaf, gall busnesau gael gafael ar gymorth ynghylch cynaliadwyedd ac amrywiaeth gan Fusnes Cymru ar adeg pan mae'n haws i'r busnesau ymgorffori hyn yn eu cynlluniau buddsoddi.
- xix. **Mae angen ffocws parhaus ar fesurau gweithredu cadarnhaol i hyrwyddo Cronfa Busnes Cymru i bobl anabl:** Cytunodd Busnes Cymru a BDC i roi £5,000 yr un i Anabledd Cymru i chwilio am gyfleoedd i ariannu cymorth i berchnogion busnesau ag anableddau, ac mae Anabledd Cymru wrthi'n chwilio am gyllid ychwanegol i ddatblygu rhaglen ehangach. Yn yr adroddiad themâu trawsbynciol diweddaraf a ddarparwyd, mae BDC yn cydnabod bod yn rhaid iddo gymryd camau gweithredu mwy cadarnhaol i hyrwyddo Cronfa Busnes Cymru i bobl anabl gan fod y niferoedd sy'n cael mynediad at Gronfa Busnes Cymru yn isel (sy'n awgrymu bod rhai rhwystrau o ran ymgysylltu â'r nodwedd warchodedig hon).

Cyflawni a Rheoli Perfformiad

- xx. **Adborth cadarnhaol ar reoli, llywodraethu a chyflawni Cronfa Busnes Cymru:** Roedd yr adborth ar draws ymgynghoreion mewnol ac allanol ynghylch rheoli, llywodraethu a chyflawni Cronfa Busnes Cymru yn gadarnhaol iawn. Nododd ymgynghoreion allanol fod BDC wedi denu staff medrus iawn, gyda llawer ohonynt yn dod o gefndiroedd mewn bancio a buddsoddi ecwiti neu â phrofiad blaenorol o reoli cronfeydd rhanbarthol sydd wedi bod yn ddefnyddiol o ran gwaith cyflawni.
- xxi. **Strwythurau rheoli portffolio a strategaethau prisio risg effeithiol:** mae strwythurau clir ar waith er mwyn rheoli portffolios, ac er mwyn nodi a lliniaru'r risg o danberfformio ar gam cynnar. Mae'r strategaeth brisio sydd ar waith yn ofalus i beidio â disodli'r sector preifat, felly mae'r ffioedd yn uwch na'r sector preifat ac mae BDC yn mynd allan i'r farchnad yn rheolaidd i gael dealltwriaeth o'r cyfraddau llog y mae eraill yn eu codi ac i sicrhau ei fod yn adlewyrchu lefel y risg sy'n gysylltiedig â'r buddsoddiad. Felly, ystyrir bod y strategaeth brisio yn effeithiol o ran osgoi ystumio'r farchnad ac yn briodol o ystyried lefel y risg, gan sicrhau enillion ariannol rhesymol at ddibenion Cronfa Busnes Cymru a'r math o fuddsoddiad a gynigir ganddi.
- xxii. **Gofynion adrodd ac archwilio trylwyr:** Nododd ymgynghoreion BDC fod y lefel uwch o reoleiddio ac archwilio sy'n ofynnol ar gyfer Cronfa Busnes Cymru o'i gymharu â chronfeydd eraill BDC (oherwydd gofynion cyllido'r UE) wedi dod â lefel o drylwyrdd i'r sefydliad sydd wedi bod o gymorth, ac mae BDC wedi elwa o hyn ar draws ei gronfeydd eraill. Fodd bynnag, amlygwyd hefyd y gall y craffu hwn achosi oedi o ran rhyddhau arian parod, mewn achos lle nad oes modd i Gronfa Busnes Cymru fod yn hyblyg, ac ar brydiau gall gyfyngu ar argaeledd arian

parod i barhau i fuddsoddi. Caiff ceisiadau ariannol a DPA eu cwblhau'n chwarterol, ac mae tîm dilysu rheoli yn cynnal archwiliad o sampl, a all gymryd cryn amser cyn rhyddhau'r gyfran nesaf o gyllid. Nododd ymgynghoreion BDC y byddai'n briodol lleihau'r sampl a gymerir i'w harchwilio ymhellach dros amser os nad oes unrhyw faterion yn dod i'r amlwg, gan y gall yr archwiliad fod yn eithaf heriol a llafurus. Cyfeiriodd ymgynghoreion BDC hefyd at heriau o ran casglu data 'effaith buddsoddi' gan fusnesau. Yn ddiweddar, mae BDC wedi symleiddio'r ffurflen hon, a'r gobaith yw y bydd yn helpu i wella cyfraddau dychwelyd.

- xxiii. **Ymdrechion i ddarparu gwasanaeth ledled Cymru:** gwnaed ymdrech sylweddol i ddarparu gwasanaeth ledled Cymru gyfan, er enghraifft drwy agor prif swyddfa yn Wrecsam, agor swyddfeydd rhanbarthol a llogi staff Datblygu Busnes rhanbarthol. Roedd lansio Cronfa Busnes Cymru, yn ogystal â BDC, yn newid sylweddol o ran mynd y tu hwnt i gronfeydd blaenorol i fynd i'r afael â bylchau a diffyg yn y farchnad i BBaChau. Mae ymgynghoreion yn ystyried bod y newid o Cyllid Cymru i BDC yn un cadarnhaol iawn. Mae gwaith marchnata wedi canolbwyntio ar hyrwyddo mynediad BBaChau at gyllid, yn hytrach na chronfeydd penodol ac mae hyn wedi helpu i wella ymwybyddiaeth bod BDC yno i ddarparu cyllid ar raddfa sy'n diwallu anghenion busnesau yng Nghymru.
- xxiv. **Yn gyffredinol, mae adborth ar farchnata a datblygu busnes yn gadarnhaol:** nodwyd bod lansio BDC yn llwyddiant o ran meithrin ymwybyddiaeth gref o'r farchnad ymhlith cyfryngwyr ariannol a sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau sydd wedi hwyluso llif bargeinion. Nododd ymgynghoreion bod BDC yn weladwy yn y farchnad. Yr ymateb mwyaf cyffredin o ran sut roedd busnesau wedi clywed am Gronfa Busnes Cymru oedd yn uniongyrchol drwy BDC. Fodd bynnag, mae heriau parhaus yn wynebu marchnata o amgylch ecwiti (yn enwedig yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd) a nododd sawl BBaCh a ymatebodd i'r arolwg dros y ffôn i fuddiolwyr fod marchnata'r cyllid sydd ar gael a datblygu busnesau lleol yn faes y gellid ei wella (roedd mwyafrif y rhai a wnaeth sylw ar hyn yn fusnesau wedi'u lleoli yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd).
- xxv. **Yn gyffredinol, roedd BBaChau yn fodlon ag ansawdd gwasanaeth Cronfa Busnes Cymru:** ar y cyfan, nododd BBaChau a holwyd fel rhan o'r gwerthusiad eu bod yn hapus ag ansawdd gwasanaeth Cronfa Busnes Cymru. Agweddu o'r gwasanaeth yr oedd yr ymatebwyr i'r arolwg o'r farn y gellid eu gwella oedd cyflymder ac effeithlonrwydd y broses weinyddol a chost y cyllid ac felly gwerth am arian. Mae cost gymharol uchel y cyllid yn adlewyrchu strategaeth brisio Cronfa Busnes Cymru sy'n canolbwyntio ar osgoi gwrthio'r sector preifat o'r farchnad a'r risg uwch cysylltiedig. Mae BDC wrthi'n ymgymryd â phrosiect trawsnewid digidol, a'r gobaith yw y bydd yn gwella cyflymder ac effeithlonrwydd y broses o weinyddu Cronfa Busnes Cymru.

Canlyniadau ac Effeithiau

- xxvi. **Mae Cronfa Busnes Cymru wedi helpu i fynd i'r afael â diffyg yn y farchnad:** hynny yw, drwy lenwi bwlch yn y farchnad lle y canfyddir bod y risg o fethiant yn rhy uchel ac enillion yn rhy isel ar gyfer buddsoddiad gan y sector preifat. Mae ymgynghoriadau â BDC a chyfryngwyr ariannol yn awgrymu bod banciau'r stryd fawr yn defnyddio Cronfa Busnes Cymru yn fwy deallus, gan gyd-fuddsoddi ochr yn ochr â Chronfa Busnes Cymru er mwyn llenwi bwlch lle nad yw benthyca masnachol llawn yn hyfyw (oherwydd y costau neu'r risgiau cysylltiedig).
- xxvii. **Mae tystiolaeth o'r arolwg buddiolwyr yn awgrymu bod Cronfa Busnes Cymru wedi gwella mynediad at gyllid i BBaChau yng Nghymru:** cyn sicrhau buddsoddiad Cronfa Busnes Cymru roedd y mwyafrif o fusnesau a holwyd wedi bod yn chwilio am gyllid am o leiaf 4 mis (53%). Yr ystod amser mwyaf cyffredin i fod wedi bod yn chwilio am gyllid oedd 6 i 12 mis. Mae

ymgyngoriadau â BDC yn awgrymu bod prosesau cryf ar waith i osgoi disodli neu wthio banciau'r stryd fawr, benthycwyr eraill a chyfalafwyr menter o'r farchnad.

- xxviii. **Cyflawnwyd twf sylweddol:** Mae dadansoddiad o'r arolwg buddiolwyr, a ehangwyd i gynnwys poblogaeth lawn y busnesau sy'n derbyn buddsoddiad Cronfa Busnes Cymru hyd at fis Mawrth 2020, yn awgrymu bod Cronfa Busnes Cymru wedi cyflawni cynnydd gros mewn Gwerth Ychwanegol Gros o £382m a 3,200 o swyddi hyd yma (heb gynnwys unrhyw amcangyfrifon o fudd economaidd y bydd y buddsoddiad hwn yn darparu yn y dyfodol h.y. effeithiau hirbarhad). Gan ystyried amcangyfrifon diffwrwythedd a dadleoli yn seiliedig ar arolwg, effaith Gwerth Ychwanegol Gros wedi'i gymhwyso ar hyn o bryd yw £187m y flwyddyn a 900 o swyddi.
- xxix. Nododd y dadansoddiad effaith gwrthffeithiol hefyd fod y rhai y mae Cronfa Busnes Cymru wedi buddsoddi ynddynt wedi profi twf cyflogaeth cryf ar ôl y buddsoddiad. Cyfanswm **effaith gros** cyflogaeth ymhlith y 204 o fusnesau a gynorthwyir y gellid eu cydweddu â busnesau tebyg na chânt eu cynorthwyo drwy'r dadansoddiad oedd **1,700 o swyddi**. Hefyd, profodd busnesau a dderbyniodd fuddsoddiad gan Gronfa Busnes Cymru **dwf cryfach o ran trosiant na'u cymaryddion**.
- xxx. Nododd dadansoddiad o'r gwerthusiad effaith gwrthffeithiol bod **82% o'r twf hwn mewn cyflogaeth yn ychwanegol**, yn yr ystyr na welwyd twf o'r fath mewn busnesau tebyg dros y cyfnod. Mae hyn yn cyfateb i gyfanswm o **1,400 o swyddi ychwanegol, oddeutu 7 swydd ychwanegol fesul menter ar gyfartaledd**.
- xxxi. Mae'r dadansoddiad effaith gwrthffeithiol yn awgrymu bod llai o swyddi wedi'u creu nag a nodwyd yn yr arolwg, sy'n awgrymu y gallai fod peth tuedd o ran optimistiaeth ymhlith y busnesau a holwyd ynghylch creu swyddi o ganlyniad i'r buddsoddiad gan Gronfa Busnes Cymru, neu efallai bod peth tuedd o ran sampl yn bodoli lle nad yw sampl yr arolwg yn gwbl gynrychioliadol o boblogaeth lawn y BBaChau a gefnogir. Mae'n werth nodi hefyd nad yw'r gwerthusiad effaith gwrthffeithiol wedi cael ei ystyried ar sail gros yn yr un modd â'r dadansoddiad o'r arolwg, ac mae'n cynnwys sampl ychydig yn wahanol o fuddiolwyr a dadansoddiadau dros gyfnod ychydig yn wahanol felly nid yw'r canfyddiadau'n gwbl gymaradwy.
- xxxii. Wrth ailedrych ar y gwerthusiad effaith gwrthffeithiol fel rhan o'r gwerthusiad terfynol, bydd yn bosibl cofnodi cyfran fwy o'r gwir effeithiau ar fuddiolwyr a gefnogwyd drwy gofnodi carfan arall o fusnesau, a blynyddoedd ychwanegol o ddata ôl-gymorth ar gyfer busnesau a gafodd fuddsoddiad gan Gronfa Busnes Cymru mewn blynyddoedd cynharach. Felly, mae'n debygol y bydd y sefyllfa hon yn gwella wrth i effaith Gwerth Ychwanegol Gros pellach gael ei gwireddu a'i chipio yn y dadansoddiad o'r gwerthusiad effaith gwrthffeithiol ar gyfer y gwerthusiad terfynol.


Effeithiolrwydd Cost a Gwerth am Arian

- xxxiii. **Mae Cronfa Busnes Cymru yn darparu gwerth da am arian ar sail costau net y sector cyhoeddus:** gan ystyried yr enillion ar fuddsoddiad a ragwelir yn y dyfodol i Gronfa Busnes Cymru (hynny yw, gan ganiatáu ar gyfer yr enillion etifeddiaeth a ragwelir ac ad-dalu'r Gronfa Trafodion Ariannol Wrth Gefn), mae tystiolaeth yr arolwg yn dangos mai cost net y sector cyhoeddus fesul swydd gros a grëir yw £11,300 ar yr adeg hon yn ystod oes Cronfa Busnes Cymru. Gan ystyried diffwrwythedd a dadleoli, mae hyn yn cynyddu i £40,700.
- xxxiv. Os defnyddir amcangyfrifon effaith gwrthffeithiol creu swyddi yn hytrach na'r arolwg, cost net y sector cyhoeddus fesul swydd gros a grëir yw £21,700. Ar ôl addasu amcangyfrifon y gwerthusiad

effaith gwrthffeithiol i roi cyfrif am yr un addasiadau dadleoli a diffrwythedd ag a adroddwyd gan fusnesau a ymatebodd i'r arolwg, nodir mai cost net y sector cyhoeddus fesul swydd ychwanegol net a grëir ar yr adeg hon yn ystod oes Cronfa Busnes Cymru yw £78,000.

- xxxv. Mae'n amlwg y gellir ystyried yr amcangyfrif o enillion ar fuddsoddiad o **£5.22 (yn seiliedig ar dystiolaeth yr arolwg) a £2.72 (yn seiliedig ar dystiolaeth gwerthusiad effaith gwrthffeithiol) o Werth Ychwanegol Gros net ychwanegol am bob £1 o fuddsoddiad net yn y sector cyhoeddus yn werth da am arian.**
- xxxvi. Wrth ystyried y dadansoddiad hwn, dylid cofio nad yw dulliau'r arolwg a'r gwerthusiad effaith gwrthffeithiol yn cofnodi'r un effeithiau economaidd yn union ac felly maen nhw'n darparu gwahanol fesurau effaith a gwerth am arian. Yn benodol, mae amcangyfrifon y gwerthusiad effaith gwrthffeithiol yn cwmpasu cyfnod ôl-gymorth byrrach o gymharu ag amcangyfrifon yr arolwg ac felly mae'n fesur sy'n ôl-fynegi effaith. Mae hefyd yn eithrio busnesau cyfnod cynnar nad yw eu perfformiad busnes wedi'i nodi eto yn setiau data busnes y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Dros amser, bydd y dadansoddiad o'r gwerthusiad effaith gwrthffeithiol yn cofnodi cyfran uwch o effeithiau busnes Cronfa Busnes Cymru, a bydd hyn yn cael ei ddadansoddi yn y gwerthusiad terfynol.
- xxxvii. Hefyd, dylid nodi nad yw'r amcangyfrifon yn cynnwys unrhyw lwfans ar gyfer manteision economaidd y gall y busnesau hyn eu cynhyrchu yn y dyfodol os ydynt yn parhau i dyfu, ac nid yw eto'n cynnwys effeithiau posibl y pandemig ar berfformiad y busnesau hyn.
- xxxviii. Mae'r amcangyfrifon gwerth am arian hefyd yn cynnwys lwfans ar gyfer enillion etifeddiaeth disgwyledig i'r gronfa (sydd i bob pwrpas yn lleihau costau cyflwyno'r gronfa i'r sector cyhoeddus), sy'n destun ansicrwydd sylweddol ar hyn o bryd.

HATCH



www.hatch.co.uk

Llundain: 0207 336 6188 Manceinion: 0161 234 9910